



CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT



**Adroddiad Blynyddol y Swyddog
Llywodraethu 2019-20**

CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi ei baratoi gan y Swyddog Llywodraethu i roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod gweithgareddau Corfforaeth Coleg Gwent yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020, wedi eu gwneud yn unol â gofynion statudol perthnasol ac yn unol â'r gweithdrefnau a'r strwythur llywodraethu a nodir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent.

Mabwysiadodd y Gorfforaeth y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru yn ffurfiol ym mis Hydref 2016. Mae'r Cod yn nodi gofynion statudol ac arfer orau argymelledig mewn perthynas â llywodraethu gyda'r nod o gefnogi byrddau coleg i fodloni eu cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Mae Corfforaeth Coleg Gwent yn ceisio bodloni'r arfer orau a nodwyd yn y Cod (a phryd bynnag sy'n bosibl, rhagori arni) ac fel rhan o'i broses hunanasesu, mae'n ymgymryd ag adolygiad hunanasesu blynyddol o'i berfformiad yn erbyn y Cod.

COVID-19

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, aeth Coleg Gwent i gyfnod clo o 20 Mawrth 2020. Mae'r Coleg wedi buddsoddi'n drwm yn nhechnoleg dros y tair blynedd ddiwethaf ac mewn safle da i addasu'n gyflym i weithio o bell, gan gynnwys addysgu a dysgu ar-lein. Cytunwyd ar fesurau brys wrth gefn pan nad oedd yn bosibl cynnal cyfarfodydd. Wedi dweud hynny, llwyddodd y Gorfforaeth i barhau â'i gwaith ac aeth yr holl gyfarfodydd rhagddynt fel y'u cynlluniwyd, gan gael eu cynnal o bell drwy Microsoft Teams.

Cafodd y Bwrdd a'i bwyllgorau ddiweddariadau rheolaidd ynghylch ymateb y Coleg i'r argyfwng a bu i'r Llywodraethwr Cyswllt dros lechyd a Diogelwch fynychu cyfarfodydd o bell y Grŵp Llywio lechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd yn ystod y cyfnod clo.

Yn ogystal, roedd buddsoddi mewn technoleg newydd yn galluogi Tîm Rheoli'r Gorfforaeth i gynnal cyfathrebu rhagorol drwy gydol y cyfnod gyda dysgwyr a staff. Cafodd aelodau'r Gorfforaeth eu cynnwys yn yr holl gyfathrebu i staff a rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd drwy'r negeseuon clir a hyderus.

STRWYTHUR LLYWODRAETHU

Yn dilyn adolygiad llywodraethu'r flwyddyn flaenorol, cyflwynwyd fframwaith newydd o is-bwyllgorau i gefnogi gwaith y Gorfforaeth yn 2019-20. Mae gan bob pwyllgor rhaglen waith flynyddol gytunedig sy'n cael ei datblygu a'i hadolygu mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y pwyllgor a'r Is-bennaeth perthnasol.

Cymeradwywyd Amserlen Ddirprwyo gan y Bwrdd sy'n rhoi eglurder a chysondeb i'r broses gwneud penderfyniadau ac mae'r holl bwyllgorau yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd drwy Adroddiad ffurfiol gan Gadeirydd y Pwyllgor.

AELODAETH O'R GORFFORAETH

Aelodaeth benodedig

Cynyddodd nifer penodedig o aelodau'r Bwrdd o un ar bymtheg i ddeunaw yn ystod 2018 er mwyn hwyluso cyflwyno is-bwyllgorau ychwanegol. Ym mis Rhagfyr 2019, cytunwyd y dylid creu rôl Myfyriwr Lywodraethwr ychwanegol er mwyn darparu cynrychiolaeth yn benodol i ddysgwyr Addysg Uwch, y mae eu niferoedd wedi parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Felly, mae'r aelodaeth bellach yn cynnwys tri Llywodraethwr annibynnol ar ddeg, y Pennaeth/Prif Weithredwr, dau Lywodraethwr Staff a thri Myfyriwr Lywodraethwr.

Yn ogystal â'r Llywodraethwyr, mae gan y Gorfforaeth ddau Aelod Allanol annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.

Aelodaeth 2019-20

Yr aelodau a wasanaethodd ar Gorfforaeth Coleg Gwent yn ystod 2019-20 oedd:

- Mark Langshaw (Cadeirydd)
- Hilary Aldrige (Is-gadeirydd)
- Guy Lacey (Pennaeth/Prif Weithredwr)
- Hamed Amiri
- Sue Ball
- Anthony Basnett
- Elizabeth Brimble
- Aaron Feist (Myfyriwr Lywodraethwr - AB) Penodwyd 1 Ionawr 2020
- Christopher Freegard Penodwyd 1 Ionawr 2020
- Megan Grace (Myfyriwr Lywodraethwr – AB) Penodwyd 1 Ionawr 2020
- Darragh Hanley-Crofts
- Sian Hughes (Llywodraethwr Staff)
- Samantha Morgan (Myfyriwr Lywodraethwr – AU) Penodwyd 26 Chwefror 2020
- Ray Morrison
- John Phelps
- Neil Philpott Wedi diswyddo Medi 2019
- Matthew Preece Penodwyd 1 Ionawr 2020
- Wendy Rogers
- Denise Ryan Wedi diswyddo Rhagfyr 2019
- Elizabeth Swaffield
- Martin Veale
- Paul Davenport (Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio)
- Gareth Watts (Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio)

Penodiadau

Mae pob penodiad i'r Gorfforaeth yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, ar argymhelliad y Pwyllgor Chwilio. Caiff yr aelodau Staff a Myfyrwyr eu hethol gan eu cyfoedion ond hefyd cânt gyfarfod â'r Pwyllgor Chwilio cyn cymeradwyo eu penodiad gan y Bwrdd yn derfynol.

Tymor yn y swydd

Ac eithrio'r Pennaeth/Prif Weithredwr a Myfyrwyr Lywodraethwyr, mae pob aelod yn cael ei benodi am dymor o dair blynedd yn y swydd. Maent fel arfer yn gwasanaethu am dri thymor ar y mwyaf (cyfanswm o naw mlynedd). Mae'r

Bwrdd o'r farn bod tymor o'r hyd hwn yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r Coleg ac yn sicrhau parhad yn yr arweinyddiaeth, gan roi cyfle i gyflwyno syniadau newydd yn rheolaidd.

Nid oes ailbenodiad awtomatig ar ddiwedd pob tymor yn y swydd, a dyletswydd y Bwrdd yw penderfynu ail-benodi, ar argymhelliad y Pwyllgor Chwilio. Mae'r penderfyniad i ail-benodi yn seiliedig ar adolygiad o gyfraniad ac ymrwymiad yr aelod, ynghyd â gofynion presennol y Bwrdd.

Cymhwysra

Mae cymhwysra pob aelod newydd yn cael ei wirio cyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r penodiad. Mae pob aelod yn arwyddo Datganiad Cymhwysra sy'n cyfeirio at yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu yn ogystal â rheoliadau'r Comisiwn Elusennau ynghylch cymhwysra Ymddiriedolwyr. Y Swyddog Llywodraethu sy'n cynnal gwiriadau mewn perthynas â'r ddau. Mae hyn yn cynnwys chwiliad o'r Gofrestr Methdal a'r Gofrestr Cyfarwyddwyr wedi eu Gwahardd. Gofynnir i Lywodraethwyr gwblhau cais DBS Manwl ar eu penodiad.

Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu gyda Chadeirydd ac un Is-gadeirydd. Mae pob un yn cael ei ethol gan y Bwrdd i wasanaethu am ddwy flynedd yn y swydd a gallant gael eu hail-benodi i wasanaethu am dri thymor ar y mwyaf (neu gyfanswm o chwe blynedd) yn y rôl honno. Mae ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn er mwyn sicrhau parhad yn yr arweinyddiaeth.

Etholwyd Mr Mark Langhsaw gan y Bwrdd i wasanaethu fel Cadeirydd am dymor o ddwy flynedd o 1 Awst 2018. Yn dilyn proses enwebu, ail-benodwyd Mr Langshaw fel Cadeirydd gan y Bwrdd fis Mehefin 2020 a bydd yn gwasanaethu ail dymor o ddwy flynedd yn y swydd hyd at fis Gorffennaf 2022.

Yr Is-gadeirydd yn ystod 2019-20 oedd Ms Hilary Aldridge. Cafodd ei phenodi yn gyntaf am un flwyddyn ym mis Awst 2018, ac yna fe'i hail-benodwyd am dymor o ddwy flynedd yn y swydd ym mis Awst 2019.

Llywodraethwyr â chyfrifoldebau arbennig

Yn ystod 2019-20, ymgymherodd tri Llywodraethwr â chyfrifoldebau 'Llywodraethwr Cyswllt' ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol:

- | | |
|----------------------|-----------------|
| • Amrywiaeth | Mr Hamed Amiri |
| • Iechyd a Diogelwch | Mr John Phelps |
| • Diogelu | Mr Ray Morrison |

Mae Llywodraethwyr Cyswllt yn mynychu cyfarfodydd grŵp llywio gweithredol ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd. Mae hyn yn darparu rhagor o sicrwydd yn y meysydd llywodraethu allweddol hyn ac yn caniatáu i unrhyw bryderon gael eu rhoi gerbron y Bwrdd yn gynnar.

Treuliau

Mae aelodau'r Gorfforaeth a'i phwyllgorau yn gwasanaethu ar sail wirfoddol, ddi-dâl. Mae gan aelodau hawl i hawlio am gostau teithio a chynhaliadau rhesymol sy'n codi mewn perthynas uniongyrchol â'u rôl. Yn bennaf, mae treuliau a hawliwyd yn ymwneud â theithio i gyfarfodydd ac ohonynt, ond hefyd gallant gynnwys lluniaeth di-alcohol, mynychu digwyddiadau allanol ar ran y Coleg, neu nwyddau traul hanfodol.

Mae costau yn cael eu hawlio drwy borth Adnoddau Dynol hunanwasanaeth y coleg, ac yn cael eu gwirio a'u cymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu. Os yw'r Cadeirydd yn cyflwyno cais, caiff hwn ei wirio a'i gymeradwyo gan y Swyddog Llywodraethu a'r Is-gadeirydd (Adnoddau a Chynllunio) neu'r Pennaeth/Prif Weithredwr.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020, talwyd treuliau cymwys yn unig. Yn sgil cyfnod clo COVID-19, dim ond nifer bychan o hawliadau a gyflwynwyd a chyfanswm y rhain oedd: £488.

Cytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020, ni roddodd Coleg Gwent gytundeb ar gyfer nwyddau neu wasanaethau i unrhyw aelod pwyllgor neu Gorfforaethol, nac i unrhyw sefydliad y mae aelod yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef, oni bai er mwyn mynd ar drywydd ei fusnes cydnabyddedig o ddarparu addysg a hyfforddiant er budd y gymuned leol.

Buddiannau

Mae pob aelod yn cwblhau Datganiad o Fuddiannau ar ei benodiad ac yn flynyddol wedi hynny. Mae hwn yn rhestru'r holl fuddiannau sydd ganddynt hwy (neu aelod agos o'r teulu) a allai beri gwrthdaro wrth arfer eu beirniadaeth annibynnol wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Llywodraethwr/aelod pwyllgor (neu a all ymddangos i wneud hynny). Y Swyddog Llywodraethu sy'n cynnal Cofrestr Buddiannau'r Aelodau. Mae eitem agenda yn cael ei chynnwys ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor sy'n galluogi aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant mewn perthynas ag eitemau a phynciau trafod penodol. Cofnodir yr holl fuddiannau sy'n cael eu datgan, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd, yn y cofnodion.

Mae Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ar gyfer 2019-20 i'w gweld isod er gwybodaeth:

Enw	Manylion y buddiant	Dyddiad y datgelwyd y buddiant
Hilary Aldridge (Is-gadeirydd)	- Partner, Wyewood Properties - Cyfarwyddwr, Cernunnos Developments Ltd. - Partner, Nathan House Flats - Aelod, Ridgeway Learning Partnership - Cyn-llywodraethwr, Coleg York (wedi dod i ben fis Gorffennaf 2018) - Cyfarwyddwr, Brook House Flats Ltd.	23.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 23.04.18 08.10.18 21.10.19

	Cyfarwyddwr, Hanbury Court Residential Ltd.	
Hamed Amiri	- Cyflogai, NewLaw Solicitors, Caerdydd - Cyn-gyflogai, Target Group Ltd (wedi dod i ben mis Mehefin 2020)	18.06.19 16.04.08
Sue Ball	- Cyflogaeth - Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Aelod o Gyngor Eglwys y Plwyf, Eglwys Sant Marc, Casnewydd	26.03.18 26.03.18
Anthony Basnett	- Gwraig – cyflogai Coleg Gwent - Cyflogai – VMWARE o 17/06/19 - Cyn-gyflogai, Cisco International Ltd. (wedi dod i ben 16/06/19)	17.01.18 21.05.19 17.01.18
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer, Cyngor y Gweithlu Addysg	29.05.19
Aaron Feist (Myfyriwr Lywodraethwr)	Myfyriwr, Coleg Gwent	17.01.20
Christopher Freegard	- Dirprwy Raglaw Gwent - Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Prifysgol De Cymru (wedi dod i ben mis Gorffennaf 2020) - Ymddiriedolwr – Kaleidoscope Project - Gwraig - Pennaeth Uned Nawdd Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru	12.01.20 12.01.20 12.01.20 12.01.20
Megan Grace (Myfyriwr Lywodraethwr)	- Myfyriwr a Llysgennad Myfyrwyr Coleg Gwent - Chwaer yn cael ei chyflogi gan Coleg Gwent	17.01.20 17.01.20
Darragh Hanley-Crofts	- Cyflogai, Corfforaeth Darlledu Prydain - Aelod, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)	01.08.17 01.08.17
Sian Hughes (Llywodraethwr Staff)	Aelod o staff, Coleg Gwent	01.10.15
Guy Lacey (Pennaeth/Prif Weithredwr)	- Llywodraethwr, Ysgol Gyfun y Coed Duon, Caerffili - Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Trefynwy, Trefynwy - Cynghorydd, YPRENTIS (partneriaeth rhwng Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy)	08.10.15 08.10.15 17.04.18
	Cyfarwyddwr/Is-gadeirydd, Colegau Cymru	01.09.18
Mark Langshaw (Cadeirydd)	Cyflogaeth - Cyfarwyddwr Continental Teves. Mae'r cwmni yn gwsmer hyfforddi ar gyfer y Coleg ac yn cyflogi prentisiaid sy'n mynychu'r Coleg.	09.11.16
	Cadeirydd, Prosiect Effaith Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (di-dâl)	09.11.16
	Cadeirydd Bwrdd Menter Blaenau Gwent (di-dâl)	09.09.18

	Cadeirydd Bwrdd Cyngori Strategol, y Cymoedd Technoleg (di-dâl)	09.09.18
	Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru	09.11.16
Samantha Morgan (Myfyriwr Lywodraethwr)	- Myfyriwr, Coleg Gwent - Cyflogai (rhan amser), Grŵp Targed	26.02.20 26.02.20
Ray Morrison	Cydberchennog a chyd-gyfarwyddwr, Bowmor Ltd. yn masnachu fel Bluebird Care Casnewydd (darparwr gofal cartref ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion)	09.08.18
	Gwirfoddolwr (Hyrwyddwr Cyfeillion Dementia), y Gymdeithas Alzheimers	09.08.18
	Aelod, Grŵp Gweithredu Dinas Ystyriol o Ddementia Cyngor Dinas Casnewydd	09.08.18
	Aelod, Fforwm Darparwyr Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf	09.08.18
	Aelod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Grŵp Cyswllt Gweithredol Gofal Cartref	09.08.18
John Phelps	- Ymgynghorydd Addysg a Hyfforddiant Addysg Bellach hunangyflogedig gan gynnwys: - Cymwysterau Cymru - adolygiad o gymwysterau peirianeg (Cyngorydd Sector) - Gwaith asesu dysgu yn seiliedig ar Waith ar gyfer Coleg Merthyr	29.05.19
Matthew Preece	- Hunangyflogedig - Business Doctor (ymgyngoriaeth taledig i fusnesau ledled Gwent). - Is-lywydd BNI Celtic - grŵp rhwydweithio atgyfeirio yng Nghasnewydd - Gwraig - Cyfarwyddwr Ariannol, Aviva	16.01.20 16.01.20 16.01.20
Wendy Rogers (Llywodraethwr Staff)	- Is-gadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Coleg Gwent - Cadeirydd, Undeb Prifysgolion a Cholegau, Campws Crosskeys - Cynrychiolydd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau, Campws Pont-y-pŵl a Brynbuga	10.08.18 10.08.18 10.08.19
Denise Ryan	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	28.05.19
Lizzie Swaffield	- Cyflogai - Education Endowment Trust - Cyn-gyflogai - Cymwysterau Cymru (Rheolwr Cymwysterau) (wedi dod i ben mis Medi 2020) - Cyn-gyflogai, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (wedi dod i ben 31/03/19) - Cyfranddaliwr, Swaffield Ltd (Busnes gwasanaethau peirianeg) - Gŵr - perchennog Swaffield Ltd - Aelod, Sefydliad Corfforedig Elusennol Pafiliwn Grange (Prosiect trosglwyddo ased cymunedol lleol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd) - Cyfarwyddwr, Swaffield Ltd	28.09.20 20.01.20 20.06.17 20.06.17 20.06.17 19.07.18 22.10.19
Martin Veale	Aelod Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. (Taledig) ac Ymddiriedolwr Elusen Codi Arian Felindre	15.03.16

	Aelod Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Chwaraeon Cymru	01.09.18
	Ynad Heddwch, Mainc Canolbarth Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM	12.09.16
	Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio, Cyngor Sir Penfro	06.09.19
	Aelod Lleyg, Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	11.04.19
	Cyfarwyddwr, Cwmni Buddiannau Cymunedol Datblygiad Fferm Wynt Pen y Cymoedd (i fod i ddechrau mis Mehefin 2019)	11.04.19
	Llywodraethwr, Ysgol Uwchradd Hawthorn (di-dâl)	20.01.20
	Aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru	20.01.20
Gareth Watts (Aelod Allanol)	Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, Senedd Cymru (Cyflogaeth)	20.10.15
	Aelod Corff Llywodraethu, Ysgol Meadowbank, Caerdydd	17.10.17
Paul Davenport (Aelod Allanol)	Cyflogai, Vauxhall Finance: Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsfurfio	15/12/15

Cynefino a Datblygiad Aelodau'r Gorfforaeth

Mae aelodau newydd eu penodi yn cael Pecyn Cynefino sy'n cynnwys copiâu o ddogfennau allweddol gan gynnwys Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu ac Archebion Sefydlog Coleg Gwent, y Memorandwm Dealltwriaeth Ariannol gyda Llywodraeth Cymru a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

Mae aelodau newydd yn ymgymryd â phroses gynefino sy'n cynnwys cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Swyddog Llywodraethu, y Cadeirydd a'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi golwg bras o'r Coleg a'i Genhadaeth a Gweledigaeth strategol yn ogystal â materion llywodraethu allweddol. Mae ail gyfnod cynefino hefyd yn cynnwys cyfarfodydd gyda phob un o'r Is-benaethiaid sy'n cynnig golwg bras ar eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae gan bob aelod fynediad at ystod eang o wybodaeth ac arweiniad yn electronig ac mae Llywodraethwyr yn cwblhau modiwlau hyfforddi gorfodol ar-lein yn seiliedig ar Ddiogelu, Atal, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal, mae Llywodraethwyr yn cefnogi digwyddiadau ar draws y coleg, gan gynnwys arddangosfeydd a chystadlaethau pan mae hynny'n bosibl.

Mae sesiynau briffio cyn cyfarfodydd yn sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o faterion sy'n codi a mentrau allweddol. Cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, cafodd y Bwrdd sesiynau briffio yn seiliedig ar:

- Atal risg a thwyll
- Career Colleges
- Proses SAR y Coleg.

CYFARFODYDD BWRDD A PHWYLLGOR

Cyfarfodydd bwrdd

Yn ystod 2019-20 cafodd y Bwrdd chwe chyfarfod. Fel y nodwyd eisoes, bu i gyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau fynd rhagddynt o bell drwy Microsoft Teams yn ystod y cyfnod clo. Cynhaliwyd y cyfarfodydd Bwrdd ar y dyddiadau canlynol:

- 22 Hydref 2019
- 17 Rhagfyr 2019
- 25 Chwefror 2020
- 21 Ebrill 2020 (cyfarfod o bell)
- 16 Mehefin 2020 (cyfarfod o bell)
- 14 Gorffennaf 2020 (cyfarfod o bell)

Y cworwm cytunedig ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yw 50% o aelodau cymwys yn bresennol. Roedd gan bob cyfarfod Bwrdd yn ystod y flwyddyn gworwm.

Adrodd a monitro

Yn ystod pob cyfarfod Bwrdd, mae'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn cyflwyno Adroddiad Ariannol manwl. Mae hwn yn amlinellu perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb, dangosyddion perfformiad allweddol ariannol a rhagolygon. Yn ychwanegol, mae'r Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar recriwtio dysgwyr yn erbyn y targed.

Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau dysgwyr, Diogelu a Llais y Dysgwr, yn ogystal ag adroddiadau blynyddol ar lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae'r tîm Rheoli yn cyflwyno 'dangosfyrddau' strategol cryno ar fentrau a phrosiectau allweddol gan gynnwys Strategaeth Dechnoleg y Coleg a'r Strategaeth Addysgu a Dysgu. Mae pob adroddiad i'r Bwrdd yn cynnwys asesiad o risg ac yn nodi sut mae'n cysylltu ag amcanion strategol allweddol y Coleg.

Mae gwaith is-bwyllgorau'r Gorfforaeth yn cael ei adrodd i'r Bwrdd drwy Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau. Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu sylw at eitemau i'w dwysáu i'r Bwrdd. Maent hefyd yn rhoi sicrwydd ac yn diweddarau'r Bwrdd cyfan am ddatblygiadau allweddol yng ngwahanol feysydd y coleg.

Cymeradwyo gwariant

Yn unol â Rheoliadau Ariannol y Coleg, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo gwariant cyfalaf o dros £250,000. Mae cynnydd ar brosiectau cyfalaf yn cael ei fonitro drwy'r Adroddiad Ariannol Misol ac mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau hefyd yn adolygu crynodebau 'dangosfwrdd' ar gyfer prosiectau cyfalaf sylweddol.

Ni chymeradwywyd gwariant cyfalaf mawr o fwy na £250k yn ystod 2019-20.

PWYLLGORAU

Yn dilyn adolygiad o'r strwythur llywodraethu yn 2018-19, mae'r Gorfforaeth bellach yn gweithredu gyda phum is-bwyllgor sefydlog. Mae pwyllgorau yn cefnogi gwaith y Bwrdd ac yn caniatáu Llywodraethwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fwy manwl o feysydd penodol. Ar hyn o bryd, mae'r is-bwyllgorau fel a ganlyn:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd
- Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
- Pwyllgor Chwilio
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Roedd aelodaeth pwyllgorau 2019-20 fel a ganlyn:

Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd
• Mr M Veale (Cadeirydd) • Mr H Amiri • Mrs E Brimble • Mr R Morrison • Mr P Davenport (Allanol) • Mr G Watts (Allanol)	• Ms H Aldridge (Cadeirydd) • Ms M Grace (Myfyriwr Lywodraethwr - AB) • Mr G Lacey (Pennaeth/Prif Weithredwr) • Mrs S Morgan (Myfyriwr Lywodraethwr – AU) • Mr J Phelps • Mr M Preece • Mrs W Rogers (Llywodraethwr Staff Addysgu) • Mrs E Swaffield
Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau	Pwyllgor Chwilio
• Mr A Basnett (Cadeirydd) • Mr C Freegard • Mr D Hanley-Crofts • Mrs S Hughes (Llywodraethwr Staff) • Mr G Lacey (Pennaeth/Prif Weithredwr) • Mr M Langshaw (Cadeirydd y Gorfforaeth)	• Mrs S Ball (Cadeirydd) • Ms H Aldridge • Mr A Feist (Myfyriwr Lywodraethwr) • Mr G Lacey (Pennaeth/Prif Weithredwr) • Mr M Langshaw (Cadeirydd y Gorfforaeth)
Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol	
• Mr M Langshaw (Cadeirydd) • Ms H Aldridge • Mrs S Ball • Mr M Veale	

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar Llywodraethwr a dau aelod allanol ychwanegol gyda phrofiad arbenigol o archwilio neu gyfrifeg. Martin Veale oedd yn parhau i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn 2019-20.

Nid yw Cadeirydd y Gorfforaeth na'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio ac yn unol ag argymhellion Cod Ymddygiad Archwilio Addysg Bellach Cymru (ACOP), mae aelodau o staff a myfyrwyr ac aelodau'r Pwyllgor Cyllid ac

Adnoddau wedi'u heithrio rhag bod yn aelodau. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu'r cyfarfodydd, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae uwch reolwyr eraill yn cael gwahoddiad i fynychu pan mae hynny'n briodol, mewn perthynas ag eitemau penodol i'w trafod. Mae cynrychiolwyr o wasanaethau archwilio mewnol (TIAA) ac allanol (PwC) yn mynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor ac mae'r pwyllgor yn cyfarfod â'r cynrychiolwyr hyn yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn.

Yn 2019-20, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith ar:

- 19 Tachwedd 2019
- 3 Mawrth 2020
- 12 Mai 2020 (cyfarfod o bell)
- 1 Gorffennaf 2020 (cyfarfod o bell)

Roedd gan bob cyfarfod pwyllgor yn 2019-20 gworwm.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn rhoi adroddiad cryno i'r Bwrdd o fusnes y pwyllgor ar ôl pob cyfarfod. Fel y gofynnir gan yr ACOP, mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol manwl i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o fusnes y pwyllgor ac yn cynnig barn y Pwyllgor Archwilio ar brosesau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu'r Coleg. Mae barn y Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith archwilwyr mewnol ac allanol ar gyfer y flwyddyn, gyda'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei gyflwyno hefyd. Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd, mae'r adroddiad hwn yn llunio rhan o'r cyflwyniadau blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu ei Gylch Gorchwyl bob blwyddyn. Cawsant eu hadolygu a'u cymeradwyo diwethaf gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020. Mae copi o'r Cylch Gorchwyl diweddaraf wedi'i atodi yn **Atodiad 1**.

Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

Sefydlwyd y pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn dilyn adolygiad llywodraethu a 2019-20 oedd ei flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae'r pwyllgor yn monitro ac yn goruchwyllo perfformiad a datblygiadau allweddol ym maes ansawdd a chwricwlwm. Mae'n cynnwys wyth aelod, gan gynnwys dau Fyfyriwr Lywodraethwr a'r Llywodraethwr Staff Addysgu. Cadeirydd y pwyllgor yn 2019/20 oedd Ms Hilary Aldridge.

Bu i aelodau allweddol o'r Uwch Dîm Rheoli fynychu cyfarfodydd y pwyllgor:

- Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd)
- Cyfarwyddwyr Cyfadrannau (x3)
- Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol
- Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr
- Cyfarwyddwr Cwricwlwm a Gwasanaethau Gwybodaeth

Yn ystod 2019-20, cyfarfu'r pwyllgor deirgwaith ar:

- 12 Tachwedd 2019
- 21 Ionawr 2020
- 28 Ebrill 2020 (cyfarfod o bell)

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad rheolaidd ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn roedd hyn yn cynnwys monitro parhaus y gwaith o fewnosod strwythur Cyfadran newydd ar draws y coleg, datblygu ansawdd Dysgu Seiliedig ar Waith a monitro trefniadau cymorth a diogelu.

Bydd Cylch Gorchwyl y pwyllgor yn cael ei adolygu yng nghyfarfod mis Tachwedd 2020. Rhoddir copi o'r Cylch Gorchwyl presennol yn **Atodiad 2**.

Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Sefydlwyd y pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar ôl yr adolygiad llywodraethu. Mae'n monitro perfformiad ac yn cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â chyllid, adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn monitro cynnydd ar brosiectau cyfalaf mawr.

Ar y pwyllgor mae chwe Llywodraethwr ac mae'n cynnwys y Llywodraethwr Staff Cefnogi Busnes. Cadeirydd y pwyllgor yw Mr Anthony Basnett. Yn ogystal, bu i aelodau allweddol o'r Uwch Dîm Rheoli fynychu'r cyfarfodydd:

- Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
- Cyfarwyddwr Ystadau
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Cyfarwyddwr TGCh
- Cyfarwyddwr Cyllid

Yn ystod 2019-20, cyfarfu'r pwyllgor deirgwaith ar:

- 5 Tachwedd 2019
- 28 Ionawr 2020
- 19 Mai 2020 (cyfarfod o bell)

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

Mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i ddiweddarau ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, roedd hyn yn cynnwys monitro datblygiad Parth Dysgu Torfaen, mewnosod parhaus y Strategaeth Dechnoleg, ymateb y tîm Ystadau ac Adnoddau Dynol i COVID-19 a datblygu Cyllideb 20-21 cyn i'r Bwrdd ei chymeradwyo.

Adolygwyd a chymeradwywyd Cylch Gorchwyl y pwyllgor fis Mai 2020. Rhoddir copi yn **Atodiad 3**.

Pwyllgor Chwilio

Mae'r Pwyllgor Chwilio yn cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag aelodaeth o'r Gorfforaeth. Mae hyn yn cynnwys cynllunio olyniaeth, datblygiad llywodraethwyr ac amrywiaeth y Bwrdd. Er mai'r Bwrdd sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r penodiadau, mae'r Pwyllgor Chwilio yn goruchwyllo'r broses o recriwtio aelodau newydd ac mae'r Bwrdd yn rhoi sylw i gyngor y pwyllgor wrth ystyried pob penodiad neu ailbenodiad.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pum Llywodraethwr, gan gynnwys Cadeirydd y Gorfforaeth, Pennaeth/Prif Weithredwr ac un Myfyriwr Lywodraethwr. Cadeirydd y Pwyllgor Chwilio yw Mrs Sue Ball.

Yn ystod 2019-20, cyfarfu'r Pwyllgor Chwilio deirgwaith ar:

- 3 Rhagfyr 2019
- 11 Chwefror 2020
- 30 Mehefin 2020 (cyfarfod o bell)

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

Yn yr un modd â'r pwyllgorau eraill, mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad rheolaidd ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth y Bwrdd sy'n rhoi rhagor o ddata ynghylch amrywiaeth a'r broses recriwtio.

Mae'r Pwyllgor Chwilio yn adolygu ei Gylch Gorchwyl bob dwy flynedd a chafodd y rhain eu cymeradwyo diwethaf gan y Bwrdd ym mis Mai 2019. Rhoddir copi o'r Cylch Gorchwyl presennol yn **Atodiad 4**.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cyfarfod yn flynyddol i ystyried perfformiad, telerau ac amodau a thâl y pedwar deiliad swyddi uwch (y Pennaeth/Prif Weithredwr, yr Is-benaethiaid a'r Swyddog Llywodraethu).

Wrth ystyried cydnabyddiaethau tâl deiliaid swyddi uwch, mae'r pwyllgor yn ystyried perfformiad, data meincnodi priodol ac unrhyw gydnabyddiaeth tâl diweddar a gafwyd gan staff.

Cafodd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ei adolygu a'i gymeradwyo diwethaf yn 2017. Rhoddir copi yn **Atodiad 5**.

Presenoldeb 2019-20

Cyfarfodydd bwrdd	87%
Pwyllgor Archwilio	92%
Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd	90%
Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau	82%
Pwyllgor Chwilio	79%
Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol	100%
Seminar Strategaeth	73%
Presenoldeb Cyffredinol y Gorfforaeth	86%

Mynediad at wybodaeth

Mae Corfforaeth Coleg Gwent wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol yn y modd mae'n cynnal ei fusnes. Cymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Mynediad at Wybodaeth sy'n nodi sut i gael mynediad at wybodaeth y Gorfforaeth a'r broses dosbarthu gwybodaeth.

Cynhwysir eitem Agenda ym mhob cyfarfod i drafod dosbarthu gwybodaeth. Mae'r Polisi Mynediad at Wybodaeth yn gosod y meini prawf a ddefnyddir wrth ystyried a ddylid trin gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio. Rhaid cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddosbarthu deunydd yn erbyn y meini prawf hyn, a chynhelir adolygiad o benderfyniadau o'r fath yn flynyddol gan y Bwrdd.

Mae agendâu'r cyfarfodydd Bwrdd ar gael ar wefan Coleg Gwent ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut i wneud cais am gopiâu o agendâu/papurau Bwrdd eraill nad ydynt yn gyfrinachol. Mae'r Coleg hefyd yn ymgymryd ag agwedd ragweithiol mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth ac yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae Cynllun Cyhoeddi yn amlinellu'r math o wybodaeth a gedwir gan y Coleg ar gael ar dudalennau Rhyddid Gwybodaeth gwefan y coleg.

DATBLYGIADAU ALLWEDDOL

Ym mis Mawrth 2018, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i ailstrwythuro'r Coleg yn sylweddol. Rhoddwyd y newidiadau ar waith ar ddechrau 2019-20. Prif ffocws y gwaith ailstrwythuro hwn oedd gwella ansawdd a safoni'r ddarpariaeth, wrth gryfhau cysylltiadau â chyflogwyr. Ynghlwm â hyn, bu symud oddi wrth ddull yn seiliedig ar gampws i strwythur Cyfadran ar draws y coleg ac mae'r ddarpariaeth hyfforddiant masnachol wedi'i ddwyn yn ôl yn 'fewnol'. Mae'r strwythur llywodraethu newydd wedi'i ddylunio i blethu'r newidiadau gweithdrefnol hyn a bellach mae pwyllgorau'r Bwrdd yn chwarae rôl oruchwylio allweddol.

Parhaodd y Gorfforaeth i gael diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd yn erbyn y Strategaethau Technoleg ac Addysgu a Dysgu. Mae'r cynnydd mewnosod wedi bod yn rhagorol ac erbyn hyn mae gwaith yn mynd rhagddo ar Strategaeth Ddigidol newydd. Mae'r buddsoddiad sylweddol yn nhechnoleg yn y blynyddoedd diwethaf wedi sicrhau bod Coleg Gwent yn gallu parhau i ddarparu addysg a chyflawni dysg yn ystod y cyfnod clo. Bu i holl staff y Coleg barhau i weithio o bell a gwnaeth y Tîm TGCh ddefnydd o'r cyfnod clo i gwblhau gwaith hanfodol i'r seilwaith.

Fis Mawrth 2020, roedd y cynnydd ym Mharth Dysgu Torfaen yng Nghwmbrân yn digwydd yn gyflymach na'r amserlen. Wedi dweud hynny, bu i COVID-19 oedi'r gwaith a gwnaethpwyd y penderfyniad (mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol) i ddysgwyr ddechrau'r flwyddyn academaidd ar Gampws Pont-y-pŵl. Erbyn hyn mae'r gwaith yn ôl ar y trywydd cywir a byddant yn trosglwyddo i'r safle newydd fis Ionawr 2021. Mae'r Bwrdd wedi parhau i gael diweddariadau llawn a gwnaethant geisio sicrwydd bod strategaeth gyfathrebu effeithiol i ddysgwyr, rhieni a staff.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn monitro datblygiad canolfan ragoriaeth ar gyfer arlwy, lletygarwch a thwristiaeth ar Gampws Brynbuga. Sicrhawyd cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer costau'r fenter hon ac mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r gwariant cyfalaf angenrheidiol. Mae'r gwaith cynllunio'n parhau ac mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at weld y prosiect yn mynd rhagddo.

Yn olaf, mae datblygu Ardal Wybodaeth Casnewydd i ddisodli agweddau hynach Campws Dinas Casnewydd ar Heol Nash yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd, mae'r Coleg wedi dechrau Cytundeb Partneriaeth Strategol WEP fel y cam cyntaf tuag at sicrhau cyllid. Mae'r pwyllgor yn parhau i weithio'n agos â Chyngor Dinas Casnewydd i hyrwyddo'r prosiect hwn.

AMRYWIAETH


Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i'r egwyddorion a osodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gymeradwywyd fis Gorffennaf 2018 ac yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd. Darperir diweddariadau rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

Mae amrywiaeth y Bwrdd Corfforaethol yn cael ei monitro gan y Pwyllgor Chwilio sy'n adolygu'r Adroddiad Sgiliau ac Amrywiaeth blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn llywio'r broses recriwtio. Wrth recriwtio Llywodraethwyr newydd, mae'r Gorfforaeth yn ceisio cyrraedd cronfa eang o ymgeiswyr posibl gan ddefnyddio ystod o adnoddau recriwtio. Mae hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, safleoedd recriwtio, y gymuned fusnes a phroffesiynol, a rhwydweithiau busnes. Mae gwybodaeth ynghylch swyddi gwag hefyd yn cael ei rhannu gyda Chwarae Teg a Chyngor Hil Cymru.


Mae Gweithdrefn gymeradwy ar gyfer Recriwtio, Penodi a Chynefino Aelodau o'r Gorfforaeth. Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod a'r flaenoriaeth bob amser yw sicrhau bod gan y Bwrdd y cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad sydd ei angen arno i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol.

Amrywiaeth y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020:

Amrywiaeth rhywedd



Proffil oedran



Mesurau amrywiaeth eraill

1 siaradwr Cymraeg

1 anabledd wedi'i

17 Gwyn Prydeinig

1 Gwyn Gwyddelig

1 Asiaidd/Affganaidd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod er ei fod yn parhau i gynnal cydbwysedd da rhwng y rhywiau, nid yw ei aelodaeth yn adlewyrchu'n llawn yr holl gymunedau yng Ngholeg Gwent. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwaith yn parhau i ehangu cyrhaeddiad y broses recriwtio.



SWYDDOG LLYWODRAETHU


Swyddog Llywodraethu Corfforaeth Coleg Gwent ar gyfer 2019-20 oedd Mrs Marie Carter sy'n meddu ar Dystysgrif Uwch y Sefydliad Llywodraethu Siartredig mewn Llywodraethu Corfforaethol. Mynychodd holl gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau'r Gorfforaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae'r Swyddog Llywodraethu yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Addysg Bellach Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i rannu arfer orau a thrafod materion llywodraethu allweddol sy'n effeithio ar y sector AB. Yn ogystal, cwblhaodd Mrs Carter hyfforddiant gorfodol mewn Diogelu a Gweithio gyda'r Ddyletswydd Atal yn ystod 2019/20.

DATGANIAD SICRWYDD

Cyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn fodlon bod Corfforaeth Coleg Gwent wedi cyflawni ei chyfrifoldebau statudol yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020, ac y cwblhawyd holl fusnes Bwrdd y Gorfforaeth a'i bwyllgorau yn unol ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent a'r holl ddeddfwriaethau a chanllawiau perthnasol.

Mae hi hefyd o'r farn bod gweithgareddau'r Gorfforaeth yn bodloni'r disgwyliadau arfer orau fel y'u nodwyd yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.



Marie Carter, Swyddog Llywodraethu

Adolygwyd yr adroddiad hwn gan Fwrdd y Gorfforaeth a hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'n gofnod cywir a theg o fusnes y Gorfforaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020.



Mark Langshaw MBE, Cadeirydd y Gorfforaeth



CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT PWYLLGOR ARCHWILIO

CYLCH GORCHWYL

Cymeradwywyd ddiwethaf 14 Gorfennaf 2020

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn bwyllgor statudol o dan delerau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a cholegau Addysg Bellach ac Offeryn ac Erthyglau'r Llywodraeth. Mae'n atebol i'r Bwrdd ac mae ganddo awdurdod i ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl. Caiff y Pwyllgor hefyd ofyn am unrhyw wybodaeth angenrheidiol gan unrhyw un o weithwyr y Coleg ac mae'n rhaid i'r aelodau staff gydymffurfio ag unrhyw gais ganddo am wybodaeth.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio yr hawl i gynnal sesiwn gyfrinachol a gwahardd unrhyw unigolyn o'r sesiwn os yn fodlon bod hyn yn briodol. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yr archwilwyr allanol a mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn heb i unrhyw rai o swyddogion y Coleg fod yn bresennol.

1. Cyfrifoldebau Gweithredol

- 1.1 Sicrhau bod Coleg Gwent yn cydymffurfio â gofynion gorfodol Cod Ymarfer Archwilio Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Sicrhau bod y coleg yn sefydlu systemau priodol er mwyn asesu a rheoli risg.
- 1.3 Sicrhau bod gan Goleg Gwent systemau a gweithdrefnau digonol ar waith er mwyn hyrwyddo economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- 1.4 Cytuno i natur a chwmpas gwaith archwilio, gan gynnwys unrhyw newidiadau o fewn y flwyddyn i gynllun cyfnodol cymeradwy'r archwiliad mewnol.
- 1.5 Ystyried y datganiadau ariannol blynyddol drafft cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd i gael eu cymeradwyo'n ffurfiol. Dylai'r adolygiad hwn roi ystyriaeth benodol i bolisiâu cyfrifo arwyddocaol, cyfrifoldebau Aelodau a'r datganiad Llywodraethu Corfforaethol. Bydd barn y Pwyllgor ar unrhyw ddatganiad am effeithiolrwydd y system reoli fewnol yn cael ei darparu i'r Bwrdd fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.
- 1.6 Ystyried canfyddiadau mawr ymchwiliadau archwiliadau mewnol ac ymatebion y rheolwyr.
- 1.7 Hyrwyddo cydlyniant rhwng archwilwyr mewnol ac allanol.
- 1.8 Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer archwiliad mewnol er mwyn ateb anghenion y Coleg.
- 1.9 Goruchwyllo ac adolygu polisiâu'r Coleg ar dwyll ac anghysondeb yn rheolaidd (gan gynnwys polisiâu Gwrth-Dwyll, Datgelu Camymddygiad – Chwythu'r Chwiban a Honiadau Dienw), gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd yn unol â'r polisiâu hynny, a chynnal adolygiadau cyfnodol o gofnodion cysylltiedig drwy gyfrwng adroddiad gan y Swyddog Llywodraethu.
- 1.10 Adolygu a chymeradwyo Rheoliadau Ariannol y Coleg a pholisiâu Haen 2 perthnasol eraill yn rheolaidd fel y'u dirprwywyd gan y Bwrdd.

- 1.11 Sicrhau bod ymchwil priodol yn digwydd i unrhyw golled sylweddol a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Sicrhau bod archwilwyr mewnol ac allanol a gwasanaeth archwilio Llywodraeth Cymru yn cael eu hysbysu'n briodol.
- 1.12 Derbyn cyfrifon blynyddol archwiliedig Undeb Myfyrwyr Coleg Gwent.
- 1.13 Paratoi Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Bwrdd, ynghyd ag adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol, yn crynhoi gweithgaredd y Pwyllgor am y flwyddyn. Bydd yr Adroddiad yn mynegi barn y Pwyllgor, yn seiliedig ar waith yr archwiliadau mewnol ac allanol ac unrhyw waith arall a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ar effeithiolrwydd y system reoli fewnol, gan gynnwys y trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn amser i fod yn rhan o ystyriaeth y Bwrdd o ddatganiad cyfrifoldeb Aelodau yn y datganiadau ariannol blynyddol.

2. Cyfrifoldebau Monitro

- 2.1 Adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol, gan gynnwys y canfyddiadau a'r casgliadau a gyfyd yn sgil archwiliadau ac, yn benodol, Llythyr Rheoli/Cyfathrebu â'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu yr archwilwyr allanol ac adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol ac ymateb y rheolwyr.
- 2.2 Adolygu'r systemau sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu corfforaethol y Coleg.
- 2.3 Monitro gweithrediad argymhellion yr archwiliad y cytunwyd arnynt.
- 2.4 Adolygu adroddiadau archwiliadau perthnasol gan wasanaeth archwilio Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a sefydliadau eraill er mwyn monitro gweithrediad argymhellion perthnasol.
- 2.5 Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd archwiliad allanol a mewnol fel sail i argymhellion y Bwrdd mewn perthynas ag ailbenodiadau.
- 2.6 Monitro gweithrediad llythyrau a chanllawiau cysylltiedig ag archwilio pan y'i derbynnir.
- 2.7 Adolygu Adroddiad Blynyddol ar gofnodion mewn Cofrestrau allweddol, gan gynnwys Cofnodion Diddordebau, Rhoddion a Lletygarwch a Rhyddid Gwybodaeth.

3 Cyfrifoldebau Cyngori

- 3.1 Cyngori'r Bwrdd ynglŷn â phenodiad a thelerau ymgysylltu'r archwilwyr mewnol; ffi'r archwiliad, darpariaeth gwasanaethau nad ydynt yn rai archwilio gan yr archwilwyr mewnol ac unrhyw drafod ynglŷn â'u hymddiswyddiad neu ddiswyddiad, ac i wneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â'u hailbenodiad blynyddol.
- 3.2 Cyngori'r Bwrdd ynglŷn â phenodiad a thâl yr archwilwyr allanol a chwmpas eu gwaith, gan gynnwys darpariaeth unrhyw wasanaethau nad ydynt yn rai archwilio ac unrhyw drafod ynglŷn â'u hymddiswyddiad neu ddiswyddiad, ac i wneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â'u hailbenodiad blynyddol.
- 3.3 Adolygu ac argymhell Asesiad o Anghenion, Strategaeth a Chynllun Cyfnodol yr Archwiliad Mewnol.

- 3.4 Rhoi cyngor, lle bo angen, i'r Bwrdd neu bwyllgorau eraill y Bwrdd, gan gynnwys cyngori'r Bwrdd ar bolisiau Haen 1 perthnasol.

4. Materion ychwanegol

- 4.1 Dim ond fel y dirprwywyd yn benodol iddo gan y Gorfforaeth ac fel y nodir yn y Memorandwm Dealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru y mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb gweithredol.
- 4.2 Caiff y Pwyllgor Archwilio ofyn cyngor proffesiynol, annibynnol a sicrhau presenoldeb unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad ac arbenigedd perthnasol yn ei gyfarfodydd.
- 4.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad rheolaidd ar weithgareddau'r pwyllgor i'r Bwrdd.
- 4.4 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn gweithredu fel Clerc y Pwyllgor.
- 4.5 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn sicrhau bod copïau o'r cofnodion, neu gofnodion drafft (wedi eu golygu os yn briodol) yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Gorfforaeth er gwybodaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Bwrdd.
- 4.6 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu'n FLYNYDDOL

Aelodaeth:

Chwech

Yn cynnwys pedwar Aelod o'r Bwrdd
(ac eithrio'r Cadeirydd, y Pennaeth, Staff a Myfyrwyr)

a

Dau Aelod Pwyllgor Allanol

Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn Aelod o'r Bwrdd.

Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau fod ar y Pwyllgor Archwilio.

Cworwm:

Tri (50%), y mae'n rhaid i ddau ohonynt (gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor) fod yn Aelodau o'r Bwrdd.

Amledd y cyfarfodydd:

4 (lleiafswm o 3) y flwyddyn – Bob tymor



CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT PWYLLGOR CWRICWLWM AC ANSAWDD

CYLCH GORCHWYL
Cymeradwywyd 25 Chwefror 2020

Diben y Pwyllgor

Mae'r pwyllgor yn un anstatudol a sefydlwyd i fonitro a goruchwyllo gweithrediad a pherfformiad datblygiadau allweddol ym mhob maes cwricwlwm ac ansawdd. Mae hyn yn cynnwys prif lif llawn amser, prif lif rhan amser, Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL), Cymraeg i Oedolion (WfA) a Dysgu ar sail Gwaith (WBL).

Mae gan y Pwyllgor brif gyfrifoldeb pe ddirprwyir yn benodol iddo gan y Gorfforaeth yn unig.

1. Prif Gyfrifoldebau

- 1.1 Derbyn diweddariadau ar faterion Llais Dysgwr a gwneud awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd Llais Dysgwr.
- 1.2 Sicrhau bod y Coleg yn bodloni gofynion cyfreithiol fel maent yn gymwys i fyfyrwyr, gan gynnwys Diogelu, Atal, Mesur Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, derbyniadau etc.
- 1.3 Archwilio dangosyddion ansawdd ar safonau cyffredinol o ddarpariaeth. Cynnwys adrodd cwynion, cynnydd yn erbyn y Strategaeth Addysgu a Dysgu, IQA/EQA etc.
- 1.4 Archwilio a herio meysydd pwnc lle mae angen gwella perfformiad/safonau.
- 1.5 Archwilio a goruchwyllo strategaeth Cwricwlwm y Coleg a monitro datblygiad y Cynllun Cwricwlwm, gan sicrhau ei fod yn gyraeddadwy ac yn bodloni gofynion a thargedau Llywodraeth Cymru. I gynnwys monitro derbyniadau yn erbyn targedau.
- 1.6 Goruchwyllo gweithrediad ac effaith mentrau cwricwlwm newydd (e.e. Colegau Gyrfaoedd, Sgiliau etc.).
- 1.7 Adolygu'r strategaeth dysgu ar sail gwaith a monitro perfformiad.
- 1.8 Adolygu a chymeradwyo polisïau a gweithdrefnau cwricwlwm ac ansawdd Haen 2 perthnasol fel y'u dirprwywyd gan y Bwrdd.

2. Cyfrifoldebau Ymgynghorol

- 2.1 Adolygu'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol ar gyfer argymhell i'r Bwrdd (gan sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru).
- 2.2 Adolygu'r Strategaeth a pherfformiad AU ac awgrymu'r Datganiad Sicrwydd Academaidd Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

2.3 Cyngori'r Bwrdd ar bolisiâu Haen 1 perthnasol

3. Cyfrifoldebau Arolygol

- 3.1 Monitro gweithrediad y Cynllun Datblygu Ansawdd a'i effaith yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- 3.2 Monitro ac asesu effaith Fforymau Cyflogwr wrth ddatblygu cwricwlwm i fodloni gofynion cyflogwyr ac i ymateb i Flaenoriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

4. Materion ychwanegol

- 4.1 Bydd y Swyddog Llywodraethiant yn gweithredu fel Clerc i'r pwyllgor.
- 4.2 Bydd y pwyllgor yn ymdrin ag unrhyw fater arall a gyfeirir ato gan y Bwrdd.
- 4.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau'r pwyllgor i'r Bwrdd.
- 4.4 Bydd y Swyddog Llywodraethiant yn sicrhau bod copïau o'r cofnodion (neu gofnodion drafft) yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Gorfforaeth er gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod Bwrdd priodol nesaf.
- 4.5 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu'n FLYNYDDOL.

Aelodaeth:

8

Yn cynnwys: 4 Llywodraethwr Annibynnol
1 Llywodraethwr Staff Addysgu
1 Llywodraethwr Myfyriwr (AB)
1 Llywodraethwr Myfyriwr (AU)
Pennaeth/Prif Weithredwr

Gellir penodi rhagor o Aelodau Allanol, ac mae gan y pwyllgor hawl i gael cyngor annibynnol a phroffesiynol gan unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol, a chânt eu gwahodd i fynychu'r cyfarfodydd.

Cworwm:

50% i gynnwys o leiaf 2 Lywodraethwr annibynnol

Amllder y cyfarfodydd:

Tymhorol (o leiaf 3 gwaith y flwyddyn)



CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU

CYLCH GORCHWYL

Cymeradwywyd ddiwethaf 30/09/20

Diben y Pwyllgor

Mae'r pwyllgor yn un anstatudol a sefydlwyd i gynghori'r Bwrdd ar faterion ariannol, adnoddau dynol ac isadeiledd (gan gynnwys TGCh ac Ystadau) ac i fonitro cynnydd prosiectau mawrion.

1. Prif Gyfrifoldebau

- 1.1 Archwilio perfformiad ariannol y Coleg, gan gynnwys monitro ac archwilio cyfrifon rheoli, rhagolygon a chyllideb.
- 1.2 Cymeradwyo polisiâu a gweithdrefnau ariannol perthnasol fel y dirprwywyd.
- 1.3 Cymeradwyo polisiâu Haen 2 perthnasol fel y'u dirprwywyd gan y Bwrdd.
- 1.4 I adolygu a chymeradwyo mabwysiad Cyd-gytundebau a drafodwyd yn genedlaethol yn atodol i'r Contract Cyffredin Cenedlaethol.

2. Cyfrifoldebau Ymgynghorol

- 2.1 Ystyried awgrymiadau a'u gwneud ar unrhyw fenthyciad, cyfalaf neu wariant sylweddol arall arfaethedig.
- 2.2 Cynghori'r Bwrdd ar strategaethau Ariannol, Staff, Ystadau a TGCh.
- 2.3 Ystyried awgrymiadau a'u cynghori/cyflwyno i'r Bwrdd ar bob agwedd ar y strategaeth AD.
- 2.4 Cynghori'r Bwrdd ar bolisiâu Haen 1 perthnasol.

3. Cyfrifoldebau Arolygol

- 3.1 Monitro trefniadau pensiwn staff y Coleg, gan gynnwys archwilio adroddiadau blynyddol y cynllun pensiwn a phrisiadau actiwaraid.
- 3.2 Goruchwyllo iechyd a diogelwch yn y Coleg ac adolygu adroddiad blynyddol ar iechyd a diogelwch a derbyn adroddiadau gan yr Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch.
- 3.3 Adolygu adroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a derbyn adroddiadau gan y Grŵp Llywio Amrywiaeth.
- 3.4 Monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

4. Materion ychwanegol

- 4.1 Bydd y Swyddog Llywodraethiant yn gweithredu fel Clerc i'r pwyllgor.
- 4.2 Bydd y pwyllgor yn ymdrin ag unrhyw fater arall a gyfeirir ato gan y Bwrdd.
- 4.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau'r pwyllgor i'r Bwrdd.
- 4.4 Bydd y Swyddog Llywodraethiant yn sicrhau bod copïau o'r cofnodion (neu gofnodion drafft) yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Gorfforaeth er gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod Bwrdd priodol nesaf.
- 4.5 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu'n FLYNYDDOL.

Aelodaeth:

6

Yn cynnwys: 4 Llywodraethwr Annibynnol
1 Llywodraethwr Staff Cefnogi
Busnes
Pennaeth/Prif Weithredwr

Mae gan y pwyllgor hawl i gael cyngor annibynnol a phroffesiynol gan unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol, a chânt eu gwahodd i fynychu'r cyfarfodydd.

Cworwm:

50%

Amllder y cyfarfodydd:

Tymhorol (o leiaf 3 gwaith y flwyddyn)



CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT PWYLLGOR CHWILIO

CYLCH GORCHWYL

Cymeradwywyd 25 Chwefror 2020

Pwrrpas y Pwyllgor

Sefydli'r y Pwyllgor Chwilio er mwyn goruchwyllo a chynghori ar faterion cysylltiedig ag aelodaeth o'r Gorfforaeth, gan gynnwys y broses recriwtio, argymell ymgeiswyr i gael eu penodi, monitro sgiliau ac amrywiaeth, sefydlu, datblygu, perfformiad a chynllunio olyniaeth.

1. Cyfrifoldebau Gweithredol

- 1.1 Sicrhau bod anghenion aelodaeth y Gorfforaeth yn cael eu bodloni drwy chwilio am ac argymell ymgeiswyr o safon uchel i'w penodi.
- 1.2 Pennu a goruchwyllo'r broses recriwtio a sicrwydd ar gyfer Aelodaeth Corfforaeth newydd.
- 1.3 Cyfarfod â'r holl ymgeiswyr a benodir i'r Gorfforaeth a (gan gyfeirio at geisiadau a thystlythyrau ategol) gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar yr ymgeiswyr hynny yr ystyrir eu bod yn addas i'w penodi.
- 1.4 Lle bo hynny'n briodol, argymell ymgeiswyr addas i'w hychwanegu at y 'Rhestr a Argymhellir' i'w penodi i'r Gorfforaeth yn y dyfodol.
- 1.5 Darparu Adroddiad Blynnyddol i'r Bwrdd ar weithgareddau'r pwyllgor er gwybodaeth.
- 1.6 Cymeradwyo polisïau a gweithdrefnau Haen 2 perthnasol fel y'u dirprwywyd gan y Bwrdd.

2. Cyfrifoldebau Cynghori

- 2.1 Adolygu cyfansoddiad a chydbywysedd aelodaeth y Gorfforaeth bob blwyddyn a gwneud argymhellion priodol i'r Bwrdd.
- 2.2 Cynghori'r Bwrdd ar anghenion aelodaeth y Gorfforaeth a pholisïau a gweithdrefnau Corfforaeth Haen 1 perthnasol.
- 2.3 Cynghori'r Bwrdd (pan fo angen) mewn perthynas â phenodiadau i rôl Cadeirydd neu Is-gadeirydd o dan y telerau a nodir yn Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth.
- 2.4 Cynghori ar gynllunio olyniaeth briodol er mwyn sicrhau ansawdd parhaus a pharhad arweinyddiaeth.
- 2.5 Cynghori ar y broses Sefydlu a Datblygu ar gyfer aelodau'r Gorfforaeth.

2.6 Cyngori ar broses yr arfarniad blynyddol o aelodau'r Bwrdd a'r Gorfforaeth.

3. Cyfrifoldebau Monitro

- 3.1 Adolygu dadansoddiad Sgiliau ac Amrywiaeth yn flynyddol mewn perthynas ag aelodaeth gyfredol y Gorfforaeth. Rhaid cyfeirio at y dadansoddiad hwn wrth ystyried recriwtio ac argymell penodiadau'r Bwrdd.
- 3.2 Adolygu data presenoldeb y Gorfforaeth yn flynyddol a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol.
- 3.3 Monitro datblygiad parhaus y Llywodraethwyr gan gynnwys cydymffurfiaid cysylltiedig â gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer aelodau'r Gorfforaeth.

4. Materion Ychwanegol

- 4.1 Y Bwrdd cyfan sydd â'r awdurdod i benodi aelodau i'r Gorfforaeth, ond wrth ystyried penodiad, rhaid i'r Bwrdd ystyried cyngor y Pwyllgor hwn.
- 4.2 Dim ond fel y dirprwywyd yn benodol iddo gan y Bwrdd y mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb gweithredol.
- 4.3 Bydd y Pwyllgor yn mynd i'r afael ag unrhyw fater arall a gyfeirir at ei sylw gan y bwrdd.
- 4.4 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn gweithredu fel Clerc y Pwyllgor.
- 4.5 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r bwrdd ar weithgareddau'r Pwyllgor.
- 4.6 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn sicrhau bod copïau o'r cofnodion (neu gofnodion drafft) yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Gorfforaeth er gwybodaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Bwrdd.
- 4.7 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

Aelodaeth:

5

Yn cynnwys:

Cadeirydd/Is-gadeirydd
Pennaeth/Prif Swyddog
Gweithredol
Llywodraethwr
Annibynnol
1 Myfyriwr
Lywodraethwr

Caiff y pwyllgor ofyn cyngor proffesiynol, annibynnol a sicrhau presenoldeb unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol yn ei gyfarfodydd.

Cworwm: 50% (3 aelod)

Amledd cyfarfodydd: Lleiafswm o ddwywaith y flwyddyn ac yn ôl yr angen



COLEG GWENT
CORFFORAETH ADDYSG BELLACH
 CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR TÂL

Mae'r Pwyllgor Tâl yn atebol i'r Bwrdd. Os bydd y Pwyllgor o'r farn bod angen gwneud hynny, gall geisio cyngor proffesiynol annibynnol a sicrhau presenoldeb yn ei gyfarfodydd gan rai nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad ac arbenigedd perthnasol er mwyn iddynt gynghori ar faterion perthnasol.

Mae'r Gorfforaeth wedi ymrwymo i egwyddorion cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn y gweithle. Mae holl benderfyniadau ac argymhellion y Pwyllgor Tâl yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gofynion statudol mewn perthynas â'r egwyddorion hyn.

Cylch Gorchwyl

Cyfrifoldebau Cynghori

Ystyried a gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â:

- 1.1 Tâl ar gyfer holl ddeiliaid Swyddi Uwch, yn seiliedig ar:
 - data meincnodi priodol o'r sector ;
 - rolau a chyfrifoldebau cyfredol;
 - perfformiad, ac
 - unrhyw ddyfarniad cyflog diweddar i staff.
- 1.2 Telerau diswyddo ar gyfer deiliaid Swyddi Uwch.
- 1.3 Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â deiliad/deiliaid Swyddi Uwch y gellir eu cyfeirio at y Pwyllgor gan y Bwrdd.

Cyfansoddiad:

Pump o Lywodraethwyr gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd a heb gynnwys Aelodau sy'n Staff neu'n Fyfrwyr

Cadeirydd y Gorfforaeth fyd yn cadeirio'r Pwyllgor.

Cworwm:

Pump, i gynnwys y Cadeirydd a/neu'r Is-Gadeirydd

Amllder cyfarfodydd: Isafswm blynyddol

Cymeradwyaeth y Gorfforaeth: Cymeradwywyd 24^{ain} Mai 2017



COLEG GWENT
CORFFORAETH ADDYSG BELLACH
PWYLLGOR TÂL

Deiliaid Swyddi Uwch

Mae'r swyddi canlynol wedi'u dynodi'n Swyddi Uwch o dan delerau Cymal 3 (1) (d) yr Erthyglau Llywodraethu Statudol:

- Y Pennaeth/Prif Weithredwr
- Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd)
- Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
- Swyddog Llywodraethu